Cofnodion Cyfarfod 11 Rhagfyr 2012 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
George Smith
Siân Gwenllïan
Nerys John
Pat Jones
Iestyn Harris
Sarah Riley

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor gan y Cadeirydd, diolchodd iddynt am eu presenoldeb ar noson mor oer.

Ymddiheuriadau Eluned Owen, Daniel Williams, Lena Ashley, Bethan Jones, Louise Hughes, Hywel V Jones.

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Datganodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan ddiddordeb yn eitem 9.1.

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 13 o Dachwedd 2012.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Materion Diogelwch Tân** - cyflwynwyd adroddiad asesiad Tân Snowdonia Fire Protection Ltd. i Gadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd.

4.2 **Gwerth y Neuadd** - Adroddodd Swyddog Ariannol y Cyngor ei fod wedi derbyn adroddiad oddi wrth Dafydd Hardy ynglyn a gwerth y neuadd sef £928,000.00 oddeutu'r un pris sydd wedi ei ddatgan i'r cwmni yswiriant.

4.3 **Gwefan y Felinheli** - gwaith yn parhau i adnewyddu gwybodaeth a lluniau'r wefan.

4.4 **Llwybr Cae Rowen** - dywedodd y Clerc wrth y Cyngor bod angen hawl Perchennog y tir ar gyfer cofrestru'r llwybr fel un cyhoeddus.

Y Clerc i ysgrifennu at y Perchennog.

4.5 **Goleuadau Stryd Solar** - dywedodd y Clerc bod Adran Goleuadau Stryd y Cyngor Sir ar ran y Cyngor Cymuned yn gwneud ymholiadau ar gyfer cyflwyno goleuadau Stryd Solar ger Cerrig yr Afon; er hynny tybiant na fyddent yn llwyddiannus oherwydd nid oedd digon o oleuni dydd yn y gaeaf er mwyn iddynt weithredu yn y gaeaf.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Gwaith paentio'r toiledau wedi ei gwblhau.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Tachwedd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 **Gorchmynion Rheoli Cwn - Ymgynghoriad Cyhoeddus- Cynigion ar gyfer Traethau**; nid oedd lleoliad ar y gorchmynion yn berthnasol i'r Felinheli. Roedd holiadur hefyd ynghlwm, rhannwyd hwn i rai o'r cynghorwyr.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim i adrodd.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C/12/1488/20/LL - Codi ystafell haul un llawr ar ochr yr eiddo ag estyniad i fodurdy a ganiatawyd o dan gyfeirnod C10A/0284/20/MG-Llain o dir cyfagos i Ffordd Caernarfon - **dim gwrthwynebiad**.

9.2 C12/0986/20/LL – Cais llawn ar gyfer codi annedd 3 llawr – safle ger 11 Ffordd Caernarfon Y Felinheli LL56 4RZ – **y Cyngor yn gytun ac yn parhau a'r gwrthwynbiadblaenorol.**

9.3 C12/1528/20/LL – codi estyniad to fflat ar y cefn ynghyd ac estynnu'r balconi ar y llawr cyntaf a gosod balconi ar yr ail lawr – 10 hen Gei Llechi, Y Felinheli LL56 4PA – **dim gwrthwynebiad**.

10.0 NEUADD YR EGLWYS

10.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

11.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

12.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

13.1 Roedd rhai problemau yn bodoli oherwydd y llifogydd – roedd Llwybr Heulyn ar gau.

14.0 CYNGHORYDD SIR

14.1 **Ffordd Osgoi Bontnewydd a Chaernarfon** - Rhoddodd y Cynghorydd adroddiad byr ynglŷn â'r mater o'r ffordd Osgoi arfaethedig Bontnewydd a Chaernarfon. Gofynnodd i'r Cynghorydd Nerys John i adrodd ar gyflwyniad y Cyngor Cymuned i Bwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd.

14.2 Rhoddwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John i gyflwyniad y Cyngor Cymuned ar eu gwrthwynebiad i ran gyntaf o'r llwybr porffor.

14.3 **Peilonau** - roedd 3 cyfarfod wedi bod ers y cyfarfod cyhoeddus a bellach mae Grŵp ymgyrchu wedi ei sefydlu. Dosbarthwyd taflenni i'r cynghorwyr ar gyfer cael llofnodion i gofrestru gwrthwynebiadau.

14.4 **Ger y Nant** - Bydd diwrnod agored ym mis Ionawr gan Tai Eryri.

14.5 **Tywydd Garw** - roedd dwr wedi gorfod cael ei bwmpio oddi wrth y Lon las a bod gwaith dros dro wedi ei wneud ond bydd angen gwaith peirianyddol yn y dyfodol. Hefyd roedd problem dwr ar Lon Brynffynnon

15.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:00 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....